

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
gynhaliwyd ar 7 Hydref 2008 yn Siambr y Cyngor, Swyddfa Ardal, Abermaw**

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Tom Ellis (Cadeirydd Pwyllgor Craffu Datblygu), Trevor Roberts, Gethin G. Williams, Eryl Jones-Williams, (Cyngor Gwynedd), Y Cyngorwyr R. Aeron Williams, Bill Pritchard (Cyngor Tref Abermaw), Julian Kirkham (Cyngor Cymuned Arthog), Mr E. L. Vaughan (Cymdeithas Pysgodfeydd Môr Abermaw a Bae Ceredigion), Mr K. J. Probert (Cymdeithas y Bad Achub), Mrs. Wendy Ponsford (Cymdeithas Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw)

Swyddogion

Mr Barry Davies	-	Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig
Mr Ken Fitzpatrick	-	Swyddog Morwrol Harbyrau
Mr Huw Davies	-	Peiriannydd Grŵp
Mr Glyn Jones	-	Harbwr Feistr
Mr Mark Stone-Williams	-	Cynorthwy-ydd Harbwr
Mrs Glynda O'Brien	-	Swyddog Pwyllgor

Ymddiheuriadau: Mr Meic Ellis (Clwb Hwyllo Meirionnydd)

1. **ETHOL CADEIRYDD**

Penderfynwyd: Ethol y Cyngorydd Trevor Roberts yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2008/09.

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Penderfynwyd: Ethol Mr K. John Probert yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2008/09.

3. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. **COFNODION**

Cyflwynwyd: Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2008.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir yn ddarostyngedig i ychwanegu'r geiriad canlynol ar ddiwedd paragraff 6 (b):

“Gwnaed cais gan Mrs Wendy Ponsford i'r posibilrwydd i'r Uned Forwrol ddarparu manylion o'r gost i symud y sarn”.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION – COFNOD 6

Y Sarn

Adroddwyd: Gan Mrs Wendy Ponsford yn ei barn hi nad oedd y cofnodion yn adlewyrchiad teg o'r drafodaeth eang gafwyd ynglŷn â symud y sarn. Mewn ymateb cadarnhaodd aelod bod cyfeiriad i'r drafodaeth yn y cofnodion o dan Eitem 6 - Unrhyw Fater Arall. Nodwyd gan Mrs Ponsford, yn deillio o gyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2008 gyda Mr John Williams (Llywodraeth y Cynulliad), cynrychiolwyr o Grŵp Basn Harbwr Abermaw, D.E. & T a Chyngor Gwynedd. 'Roedd y cyfarfod uchod wedi ei gynnal gyda grwpiau perthnasol ar gyfer cydweithio i ddilyn nod o wella mynediad dros y Traethell yn ogystal â mynediad i gychod o fewn basn yr Harbwr pryd y gofynnwyd iddynt ddarparu rhestr o syniadau gwerth oddeutu £50,000 i £5m i'w cyflwyno er ystyriaeth. Hefyd, gofynnwyd i'r grwpiau gyflwyno materion ffurfiol i Gyngor Gwynedd a gorchwyl Mrs Ponsford ydoedd gofyn cwestiwn ffurfiol (ar gais Mr John Williams) ynglŷn â chost o symud y sarn. Felly, gofynnodd Mrs Ponsford eto os gellid ei gostio ond eglurodd y Swyddog Morwrol nad oedd gan yr Uned Forworl adnoddau neu cyllid ddigonol ar gyfer gwaith na fydd yn cael ei gwblhau yn y tymor canolig. Ni ragwelwyd bod symud y sarn yn opsiwn a chytunodd yr Aelodau gyda'r barn.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol cydnabuwyd bod trafodaeth eang wedi digwydd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Ymgynghorol hwn a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2008 ynglŷn â symud y sarn ond nad oedd mwyafrif yr aelodau a oedd yn bresennol o blaid ei symud oherwydd i'r posibilrwydd i fywydau gael eu colli fel digwyddodd yn y gorffennol. Esboniwyd oherwydd na wnaed cynnig ffurfiol yn y cyfarfod diwethaf ynglŷn â chost o symud y sarn ac yn wyneb y gwrthwynebiad ymysg yr aelodau oedd yn bresennol o'i symud ni chymerwyd unrhyw gamau pellach ar y mater

Penderfynwyd - **Nodi'r uchod.**

6. ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL

Cyflwynwyd: Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies, ar weithgareddau yn harbwr Abermaw gyda chyfeiriad penodol i'r canlynol:

- (i) Morwriaeth
- (ii) Datblygiadau Harbwr
- (iii) Gwasanaeth Fferi
- (iv) Digwyddiadau
- (v) Ystadegau Harbwr
- (vi) Canlyniad Barn Cwsmer
- (vii) Cyllidebau
- (viii) Deddf Harbwr

Adroddwyd: (a) Gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig :

- (i) bod y **cymhorthion mordwyo** mewn cyflwr derbyniol yn dilyn archwiliad gan swyddog Tŷ'r Drindod. 'Roedd y cymhorthion wedi aros yn eu lle heblaw am un ddaeth oddi ar y safle dau ddiwrnod cyn cystadleuaeth Ras y Tri Chopa. Pwysleisiwyd bod y gwaith o'u cynnal a'u

cadw yn gostus iawn ac fe fyddai'n ofynnol chwilio am £1,500 ar gyfer y gost er cwblhau rhannau o'r gwaith.

Mynegwyd pryder gan aelod nad oedd y goleuadau a'r bwiau mordwyo yn ddigonol ac i fyny i safon noson cystadleuaeth Ras y Tri Chopa oherwydd iddo weld dwy gwch yn dod i'r lân ac un o'r rheiny ar goll yn llwyr. 'Roedd o'r farn nad oedd y bwiau wedi eu rhoi ar y safle yn iawn i ymdopi â thywydd garw ac yn hyn o beth dylid rhoi ystyriaeth i ansawdd gwaith o'r fath ac nid ar brisiau isel.

Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol tra'n derbyn bod bwi Rhif 2 wedi dod oddi ar y safle 'roedd buddsoddiad enfawr wedi ei wneud i gynnal y cymhorthion yn y gorffennol ac eithriad ydoedd bod hyn wedi digwydd a phur anaml mae'r bwiau yn dod oddi ar eu safle. O ran amcangyfrifon am y gwaith, nid oedd yr Uned Forwrol yn gwneud y gwaith yn unol â thendrau isaf ar bob achlysur ac 'roedd ansawdd y gwaith yn bwysig dros ben.

(ii) yng nghyswllt **datblygiadau'r harbwr**, eglurwyd oherwydd diffyg adnoddau ariannol nad oedd wedi bod yn bosibl i brynu pontŵn ond fe fyddai'r Harbwr Feistr yn parhau i geisio am amcan brisiau ar gyfer pontŵn ail-law. Esboniwyd bod y Cyngor wedi derbyn setliad ariannol gwael iawn ac nad oedd rhagolygon am y ddwy/tair blynedd nesaf yn addawol ychwaith ond fe fyddai'r Uned Forwrol yn rhoi sylw i ddatblygiadau bychain eu maint yn yr Harbwr a chaniatáu bod adnoddau ariannol ar gael i wireddu'r rhain.

'Roedd y bibell ddŵr sydd yn eiddo i Ddŵr Cymru yn parhau i beri pryder a deallir gan y Swyddog Morwrol bod swyddogion Dŵr Cymru wedi ymweld â'r bibell ac na ellid caniatáu i'w chwtoegi oherwydd pwysigrwydd y beipen ar gyfer arllwys mewn argyfwng. Fodd bynnag, bwriedir anfon llythyr at Dŵr Cymru yn pwysu arnynt i'w thynnu.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglyn â chysylltu â pherchnogion cychod sy'n gyfrifol am ddifrodi ysgolion ar wal y cei, eglurodd y Swyddog Morwrol ei bod yn anodd profi a chael tystiolaeth yn erbyn unrhyw berchennog cwch ar gyfer adennill costau difrodi. Nodwyd bod un digwyddiad i'w weld ar y camera cylch-gyfyng ond nad oedd y llun ddigon eglur i fedru cymryd achos yn erbyn perchennog y cwch.

(iii) nodwyd y byddai perchennog newydd yn cynnig **gwasanaeth ysgraff** yn 2009. Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglyn â thystysgrif ar gyfer gweithredu ysgraff, esboniodd y Swyddog Morwrol mai tystysgrif Lefel 2 oedd yn dderbyniol gan y Cyngor ond bod perchnogion yn derbyn prawf ychwanegol gan yr Harbwr Feistr pan fo angen.

(iv) yng nghyswllt **digwyddiadau** ac yn benodol enillwyd y Faner Las Ewropeaidd yn 2008 ond efallai na fydd Abermaw yn llwyddo i'w derbyn yn 2009 oherwydd rhagolygon yn ansawdd y dŵr. Disgwylir cadarnhad ffurfiol gan Asiantaeth yr Amgylchedd maes o law. Addawodd y Swyddog Morwrol anfon nodyn i bob aelod o'r Pwyllgor hwn i gadarnhau canlyniadau ansawdd y dŵr. Cymerir samplau pob pythefnos gan yr Asiantaeth o un lle penodol rhwng Mai a Medi. Pe byddai'r canlyniadau yn negyddol ar gyfer y Faner Las, golygai i'r Uned Forwrol gyflwyno cais am Wobr Traeth Trefol ar gyfer 2009.

Mynegwyd siom gan sawl aelod ynglyn â'r uchod oherwydd bod Abermaw yn ddibynnol ar dwristiaid ac 'roedd y traeth yn un o brif atyniadau twristiaeth y dref yn y gorffennol.

(v) tywyswyd yr aelodau drwy'r atodiadau oedd ynghlwm i'r rhaglen gan ofyn iddynt nodi bod lleihad yn y nifer o Fadau Dŵr Personol, o'i gymharu â'r llynedd, a gofrestrwyd yn Abermaw sef 69 sydd yn cynnwys y rhai a gofrestrwyd drwy faesydd hamdden lleol. Cofrestrwyd 92 cwch pŵer yn harbwr Abermaw ac 'roedd 104 o gychod wedi angori yn yr harbwr eleni, sef 9 cwch yn llai na llynedd. 'Roedd y lleihad yn gyffredinol ar draws y Sir a'r rheswm mae'n debyg oedd pris uchel tanwydd a'r tywydd garw. Diolchwyd am y cydweithrediad gyda'r meysydd carafannau cyfagos yn Abermaw ar gyfer cofrestru Badau Dŵr Personol. Aeth y Swyddog Morwrol ymlaen i dywys yr aelodau drwy'r ystadegau o gymhariaeth cychod ymhob harbwr ynghyd â'r rhestr enwau'r cychod oedd wedi angori yn yr Harbwr.

(vi) cyflwynir canlyniadau **arolwg barn cwsmeriaid** i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ym mis Chwefror.

(vii) yng nghyd-destun y gyllideb, rhagwelwyd y byddai incwm Harbwr Abermaw oddeutu £20,000 yn fyr o'r targed am y flwyddyn ariannol gyfredol. Atgoffwyd yr aelodau bod £12,000 o orwariant flwyddyn ddiwethaf ac nad oedd cyrraedd y targed incwm yn realistig. Yn nhermau strwythur staffio Harbwr Abermaw 'roedd dau swyddog parhaol llawn-amser i ymdrin â'r gwaith o ddydd i ddydd tra mai un swyddog a gyflogir yn Aberdyfi. Apeliodd ar yr aelodau iddynt gyfeirio unrhyw bryderon oedd ganddynt ynglyn a materion dydd i ddydd i'r Harbwr Feistr fel bo modd ymdrin â hwy ar y pryd.

Yn sgil yr holl doriadau sy'n wynebu'r Cyngor, awgrymodd aelod y dylai dirprwyaeth o'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn gyfarfod â swyddogion perthnasol yng Nghaernarfon i drafod a fyddai modd i'r Uned Forwrol dderbyn canran o dderbyniadau'r maes parcio yn Abermaw yn sgil y ffaith mai'r Harbwr a'i gyfleusterau sydd yn denu twristiaid i Abermaw. Mewn ymateb, esboniodd y Cadeirydd bod ceisiadau cyffelyb wedi eu cyflwyno yn flaenorol ond 'roedd yr Aelodau yn unfrydol y dylid ymgeisio eto gan gyflwyno dadl gref i'r Uned Briffyrdd a Bwrdeistrefol.

(viii) yn dilyn ymholiad diweddar ynglyn â diffiniad **Deddf Harbwr**, eglurodd y Swyddog Morwrol ar y farn gyfreithiol fewnol y Cyngor a dderbyniwyd ganddo a olygai, yn unol â'r Ddeddf Cyngor Trefol Abermaw 1929, bod gan Gyngor Gwynedd y pŵer ar gyfer atgyweirio, dyfnhau, ehangu a diogelu'r Harbwr. Nid yw'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i atgyweirio, dyfnhau, ehangu a diogelu'r Harbwr.

Nid oedd Mrs Wendy Ponsford yn hapus gyda'r geiriad uchod a'i fod yn gamarweiniol a bod gan gyfreithwyr eraill wahanol farn. Awgrymwyd bod adroddiad y Swyddog Morwrol yn osgoi'r defnydd o'r gair "diogelu" ac yn unol â'r Ddeddf bod dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i wneud gwaith angenrheidiol ar gyfer ehangu, gwella a diogelu'r harbwr er mwyn creu mynedfa ddiogel ar gyfer derbyn cychod i'r harbwr. O'r geiriad hwn mae dyletswydd ar y Cyngor i gynnal ac adfer y cyfleusterau a arferai fodoli yn ôl yr angen ac nid gadael cyflwr yr harbwr ddirywio.

Mewn ymateb i gwestiynau a ofynnwyd gan Mrs Ponsford ynglyn a oedd y Swyddog Morwrol wedi gofyn am farn gyfreithiol allanol, dywedodd nad oedd wedi gwneud hynny ond 'roedd yn rhydd i unrhyw unigolyn herio'r farn gyfreithiol ar gostau eu hun. Ychwanegodd y swyddog nad oedd cyllideb ar gael i garthu'r Harbwr ond pe byddai cyfleusterau'r Harbwr yn annïogel yna fe fyddai dyletswydd ar yr Uned Forwrol i'w diogelu.

Mynegodd y Cadeirydd siom nad oedd yr arian ar gael gan Lywodraeth y Cynulliad i gynnal astudiaeth dichonoldeb ar gyfer gwelliannau i'r Harbwr ynghyd â phrosiectau megis adnewyddu

llwybrau yn Abermaw. Mewn ymateb, esboniodd Mrs Ponsford ei bod wedi cael gair gyda Mr John Williams, Llywodraeth y Cynulliad, ond nad oedd y swyddog bellach yn ymdrin â phrosiect Abermaw a'i fod wedi ei drosglwyddo i Debbie Reynolds. Awgrymwyd yn y cyfamser y dylid anfon llythyr cadarn a chryf yn nodi dyheadau'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn at Mr Alun Ffred Jones, Gweinidog dros Ddiwylliant a Threftadaeth, Llywodraeth y Cynulliad, gyda chais iddo gyfarfod gydag aelodau i drafod eu cais am astudiaeth dichonoldeb ar gyfer gwelliannau i'r Harbwr. Addawodd y Swyddog Morwrol lunio llythyr ar ran Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol.

Awgrymodd y Peiriannydd Grŵp mai'r ffordd orau ymlaen fyddai i'r grwpiau sydd â diddordeb mewn datblygu'r Harbwr yn gyntaf oll ddod at ei gilydd i drafod syniadau / dyheadau er mwyn sicrhau prosiectau clir a chadarn i'w cynnwys mewn astudiaeth dichonoldeb.

Penderfynwyd:- (a) Derbyn a nodi cynnwys adroddiad y Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a diolch i staff yr Harbwr am eu gwaith.

(b) Gofyn i'r Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i ysgrifennu at:

- (i) Mr Dafydd Williams, Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Uned Briffyrdd a Bwrdeistrefol, i gyfleu dymuniad y Pwyllgor Ymgynghorol i ddirprwyaeth o'r pwyllgor gwrdd â swyddogion perthnasol yng Nghaernarfon i drafod y posibilrwydd o'r Uned Briffyrdd a Bwrdeistrefol drosglwyddo canran o dderbyniadau'r maes parcio yn Abermaw i'r Gwasanaeth Morwrol o ystyried mai cyfleusterau'r Harbwr sydd yn denu'r defnyddwyr i'r maes parcio ac i Abermaw.**
- (ii) Mr Alun Ffred Jones, A.C., Gweinidog dros Ddiwylliant a Threftadaeth, Llywodraeth y Cynulliad, i gyfleu dymuniad aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol iddo am yr angen i gael astudiaeth dichonoldeb ar gyfer gwelliannau i'r Harbwr i gynnwys dyheadau a syniadau'r amrywiol grwpiau / partneriaeth sydd yn ymwneud â chyfleusterau'r Harbwr.**

7. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

Ystyriwyd y materion a ganlyn, oedd heb eu cyfeirio at y Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ymlaen llaw, a heb eu trafod yn ystod y cyfarfod hwn a chafwyd ymateb y swyddog iddynt:-

- (1) Pontynau a charthu. Pontynau yn y prif harbwr a'r harbwr mewnol.**

Adroddwyd bod ceisiadau i gael pontynau ers sawl cyfarfod bellach gyda dymuniad i gael pontwn wrth ymyl y llithrfa ond yn anffodus 'roedd angen carthu yn y fan hyn i'w wneud yn ymarferol bosibl i gael un yno. Awgrymwyd a fyddai'n ymarferol cael pontwn wrth ymyl stepiau'r Fferi neu yn Aberamffra.

Mewn ymateb, awgrymodd y Swyddog Morwrol y gallai'r Clwb Hwyllo gyflwyno cais am gymhorthdal o'r Cynllun SPLASH a weithredir gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer ariannu prosiectau cymunedol. Aeth ymlaen i ddweud nad oedd yn hawdd rheoli pontynau sych

oherwydd bod defnydd yn ddibynnol ar y llanw. Byddai'n ofynnol edrych i'r posibilrwydd o gael pontwn dros dro yn enwedig gan fod y Clwb Hwyllo yn gwneud gwaith canmoladwy dros ben i hyrwyddo hwyllo i blant. Awgrymwyd ymhellach y byddai'n syniad i wahodd Cai Jones, Cyngor Chwaraeon, i ddod i drafod posibiliadau gyda'r Clwb Hwyllo.

(2) Datblygu'r Harbwr. Byddai llwybr rhwng y brif bont a'r harbwr gan ymuno gyda llwybr yr arfordir ddaw o'r gogledd yn dod â llawer o fusnes i'r ardal gan feicwyr sy'n gwario cryn dipyn.

Y byddai'n fuddiol trafod yr uchod gyda Gweinidog Diwylliant a Threftadaeth yn enwedig gan fod Grwp Mynediad Eryri yn awyddus i gynnwys traphont yr arfordir fel rhan o lwybr yr arfordir. Yn ddi-os, byddai hyn eto yn cryfhau'r ddadl ar gyfer datblygu a gwella cyfleusterau'r Harbwr.

(3) Model o'r Harbwr i weld ble mae'r llif a beth y gellir ei wneud i wella'r harbwr – eto i ddenu busnesau a thwristiaid.

Adroddwyd bod angen cynyddu economi'r dref drwy ddenu mwy o gychod i'r Harbwr. Gofynnwyd a fyddai modd ymestyn cytundeb y glanhawyr/cynorthwywyr traethau hyd at ddiwedd Hydref.

Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol y byddai'n rhaid chwilio am gyllid ychwanegol ar gyfer hyn ac y byddai'n ofynnol ymestyn y gwasanaeth i bob traeth yn y Sir. Nodwyd os oes problemau ar y traethau yn ystod y cyfnodau tu hwnt i gontract y cynorthwywyr traethau bod staff yr Harbwr ar gael i ymdrin ag unrhyw fater ymarferol a godir.

(4) Deddf Harbwr 1797, Cyngor Trefor Abermaw 1929, a'r ymchwiliad cyhoeddus 1969 – dylid ystyried y rhain i gyd.

Ymdriniwyd â'r mater hwn yn Eitem 6 (viii) uchod.

(5) Mae angen lleihau pibell y garthffos. Oes modd rhoi pwysau ar Dŵr Cymru?

Ymdriniwyd â'r mater hwn fel rhan o adroddiad y Swyddog Morwrol yn Eitem 6 uchod.

(6) Oes modd rhoi pwysau ar y Cyngor i wneud rhywbeth am y toiledau sy'n dal yn warthus.

Adroddwyd yn benodol bod cyflwr toiledau'r Merched yn gywilyddus ac yn arbennig yng nghanol tymor yr haf ac nid yw eu cau am 5.00 p.m. yn ymarferol mewn tref glan y môr fel Abermaw.

Mynegodd aelod, oherwydd y toriadau a wynebai holl wasanethau'r Cyngor, y dymuniad fyddai i'r Cynghorau Cymuned / Tref gymryd cyfrifoldeb drostynt fel sydd wedi digwydd mewn rhai ardaloedd. Mewn ymateb, nododd aelod y byddai hyn yn dderbyniol pe byddai Cyngor Gwynedd yn trosglwyddo cyllid i'w cynnal a'u cadw yn hytrach nag i'r Cynghorau Cymuned orfod codi eu praesept ar gyfer hyn.

(7) Cyflwr yr ysgolion

Cydnabuwyd bod cyflwr yr ysgolion yn creu pryder ac fe drefnir rhaglen waith o atgyweirio i'w cwblhau cyn diwedd Rhagfyr.

(8) Dilyn plismona mwy ar bysgota gyda gwialen o wal yr harbwr.

Cydnabyddodd yr Harbwr Feistr ei fod yn plismona pysgota gwialen oddi ar wal yr harbwr ond bod pobl yn symud a thynnu'r arwyddion gwaharddiad ond byddai'n sicrhau rhoi mwy o arwyddion i fyny eto, pe byddai angen.

Penderfynwyd Derbyn a nodi'r sylwadau wnaed ynghyd ag ateb y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i'r rhain.

7. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Adroddwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn ar ddydd Mawrth, 25 Chwefror 2009.

Penderfynwyd Derbyn a nodi'r uchod

CADEIRYDD